



Delfryn
Llwynpïod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD ARENNIG CYNGOR TREF TREGARON NOS FERCHER/WEDNESDAY
25.06.2020 @ 8.00 yh/pm ARLEIN DROS ZOOM

COFNODION CYFARFOD ARBENNIG MEHEFIN 2020
MINUTES OF AN EXTRA ORDINARY MEETING JUNE 2020

Yn bresennol:

Cyng Arwel Jones (Cadeirydd); Cyng Catherine Hughes (Is-gadeirydd); Heulwen Bulman (Clerc)

Pwrpas y cyfarfod oedd i gael sgwrs cyffredinol am sefyllfa dros y pandemic Covid-19 a'r sefyllfa presennol.

Cytunwyd bod angen gwneud gwaith cynnal a chadw/adnewyddu yn y parc ar hyn o bryd gan fod y parc ar gau i'r cyhoedd i'w ddefnyddio.

Soniwyd bod Alan Haird am gynorthwyo'r busnesau lleol/dre drwy gau'r ffordd i'r traffic, mwy o fanylion i ddilyn.

Cyflwr y dre yn gwaethygu ond gan nad oedd hawl ganddom ar Cyngor y Cyngor Sir i gyflogi Noel, gwaethygu oedd y sefyllfa yn mynd i wneud. Byddwn yn rhoi caniatad yn syth i Noel i ail ddechrau ar y gwaith oddi amgylch y dre pan fydd y Sir yn hapus i ddechrau.

Pot blodyn oedd oddi amgylch Henry Richard wedi dychwelyd ers pryd iddo gael ei ddwyn fisoedd nol.

Cyng Arwel Jones i brynu blodau o Roberts Garden Centre i addurno'r potiau blodau oddi amgylch Henry Richard.

Angen rhoi sanitizers dwylo yn toiledau'r mart i gydymffurfio a chanllawiau Covid-19.

Cyng Catherine Hughes i drafod gyda'r Cyngor Sir am rhoi lês i'r Cyngor Tref ar cae chwarae Brynheulog.

Soniwyd bod angen torri perthu'r Ysgol Uwchradd ynghyd â'r hen safle Ysgol Gynradd, Cyng Catherine Hughes i drafod efo'r Sir.

Cytunwyd o dan yr amgylchiadau arbennig yma i ni gynnig y contract o dorri porfa'r Parc i Mr Gareth Evans a'r Eglwys i Mr Dilwyn Benjamin. am weddill y flwyddyn. Trafodwyd y posibilrwydd o gynnig y tendrau torri'r porfa am gyfnod o 2-3 blynedd ar y tro o hyn allan.

Ni dderbyniodd y Canolfan Deuluol unrhyw grant ar gyfer cynnal a chadw'r fusnes ac nawr yn gofyn am roddion trwy Aviva Just Giving. Teimlodd bawb yn gryf y ddylsai'r Cyngor Tref gyfranu tuag at y Ganolfan ond nid i gyfrannu trwy'r Aviva ond i rhoi'n bersonol iddynt.

Cytunwyd i dalu am baneri o Ddiolch oddi amgylch y dre allan o cyfrif y Cadeirydd.

Cyng Arwel Jones i drefnu bod enwau'r Cyngorwyr diweddar yn cael ei dorri mewn i'r gadwyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 17 Awst 2020 am 7.30 o'r gloch.